# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Ionawr 2026

## SL(6)713 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn annilysu'r Senedd

Mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw i dalwyr trethi ar gyfer eiddo yn eu hardal sy'n atebol am drethi annomestig. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw o'r fath. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn nodi'r set ragnodedig o eiriau ar gyfer y wybodaeth esboniadol y mae'n rhaid ei darparu i dalwyr ardrethi ochr yn ochr â hysbysiad galw.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau gweinyddol i'r wybodaeth esboniadol, er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y trefniadau a fydd ar waith o 1 Ebrill 2026.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Ionawr 2026

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2026

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 26 Ionawr 2026

## SL(6)716 - Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026

### Gweithdrefn: Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

Mae rheoliad 5 o Reoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1719 (Cy. 186)) yn gwahardd gwerthu atchwanegiadau bwyd a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio fitaminau neu fwynau oni bai bod y fitamin neu'r mwyn hwnnw—

(a) wedi ei restru yn Atodlen 1 i Reoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/651) ("Rheoliadau 2019");
(b) ar ffurf sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019 ac sy'n bodloni'r meini prawf purdeb perthnasol.

Mae'r mwyn, magnesiwm, eisoes wedi ei restru yn Atodlen 1 i Reoliadau 2019. Mae Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026 yn -

(a) ychwanegu'r ffurf fwynol, magnesiwm L-threonad monohydrad ("y Sylwedd") at y rhestr yn Atodlen 2 i Reoliadau 2019;
(b) gosod meini prawf purdeb ar gyfer y Sylwedd.

**Rhiant-Ddeddf:** Rheoliadau Maethiad (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Ionawr 2026

**Yn dod i rym ar:** 05 Mawrth 2026